ADRODDIAD

# Cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl: 23 Ebrill 2020

Cofnodion cyfarfod Grŵp Cynghori’r Gweinidog ar gyfer Gofalwyr Di-dâl 23 Ebrill 2020.

**Cyhoeddwyd gyntaf:** 23 Ebrill 2020

**Diweddarwyd ddiwethaf:** 23 Ebrill 2020

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Cynnwys

Yn bresennol

Cyflwyniadau

Y Dirprwy Weinidog

Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

Trafodaeth

Camau gweithredu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yn bresennol

| | |
|---|---|
| Arwel Ellis Owen | Cadeirydd Annibynnol |
| Julie Morgan AM | Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Matthew Jenkins | Llywodraeth Cymru |
| Rachel Lewis | Llywodraeth Cymru |
| Ceri Griffiths | Llywodraeth Cymru |
| Rachael Lovett | Llywodraeth Cymru |
| Ben O'Halloran | Llywodraeth Cymru |
| Kim Sparrey | Cyngor Sir Fynwy, COLIN |
| Kathy Proudfoot | Cyngor Sir Pen-y-bont ar Ogwr, COLIN |
| Bethan Jones Edwards | Cyngor Sir Ddinbych/ Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| David Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful |
| Simon Hatch | Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru |
| Claire Morgan | Gofalwyr Cymru |

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

| | |
|---|---|
| Vicki Lloyd | Age Cymru |
| Kate Young | Fforwm Cymru Gyfan |
| Esyllt Crozier | Gofal Cymdeithasol Cymru |
| Dianne Seddon | Prifysgol Bangor |
| Elizabeth Flowers | Swyddfa'r Comisiynydd Plant |
| Valerie Billingham | Swyddfa'r Comisiynydd Pobl Hŷn |
| Angela Hughes | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Tony Kluge | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe |
| Anna Bird | Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda |

## Cyflwyniadau

Cynhaliodd Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Ofalwyr gyfarfod drwy gyfleuster fideogynadledda. Cynhaliwyd y cyfarfod o dan gadeiryddiaeth Arwel E Owen.

## Y Dirprwy Weinidog

Rhoddodd y Dirprwy Weinidog ddiweddariad cryno ar Ddeddf y Coronafeirws a'r canllawiau cysylltiedig, a'r ymateb swyddogol i lythyr Cynghrair Cynhalwyr

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

Cymru am y problemau sy'n wynebu gofalwyr ar hyn o bryd, gan roi sicrwydd i'r aelodau ynghylch ei hymrwymiad personol i gefnogi gofalwyr drwy gydol yr argyfwng hwn. Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i roi adborth i'r Dirprwy Weinidog am y gwaith a wneir i gefnogi gofalwyr yn eu hardaloedd, a rhai o'r problemau sydd wedi cael eu nodi.

Dyma'r pwyntiau allweddol a drafodwyd:

- mae swyddogion yn bwriadu cyhoeddi ymateb i lythyr Cynghrair Cynhalwyr Cymru erbyn canol yr wythnos nesaf
- mae cysondeb ar hyd a lled Cymru, ac ar draws y gwahanol sefydliadau yn y trydydd sector, o ran y pryderon sy'n poeni gofalwyr
- mae anawsterau yn codi i elusennau sydd â staff ar ffyrlo. Mae'r sefyllfa'n effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau i ofalwyr, megis darparu gwybodaeth a chyngor
- mae llawer o ganllawiau technegol yn cael eu cyhoeddi ar hyn o bryd. Rhaid gwneud ymdrech i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn rhwydd
- disgrifiodd cynrychiolwyr o ddau fwrdd iechyd ac awdurdod lleol rywfaint o'r gwaith i gefnogi gofalwyr sy'n mynd rhagddo yn eu hardaloedd. Mae'r gwaith yn cynnwys ffonio gofalwyr i gael sgwrs ac i'w helpu drwy ddarparu cymorth cyfeirio, cynlluniau ar gyfer casglu bwyd a meddyginiaeth, a chymorth ariannol
- mae'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi bod yn hyblyg iawn ac wedi addasu eu dulliau o weithio. Mae'n bwysig cydnabod a chanmol y gwaith da sy'n cael ei gyflawni, yn ogystal â nodi'r problemau
- codwyd yr angen i feddwl am ofalwyr wrth gynllunio strategaethau ar gyfer ymadael â'r sefyllfa
- rhoddodd y Dirprwy Weinidog ymatebion cyffredinol i'r pwyntiau a godwyd, gan ddiolch i'r aelodau am eu cyfraniadau. Rhoddodd sicrwydd i'r aelodau fod Llywodraeth Cymru yn awyddus i wneud popeth o fewn ei gallu o dan yr amgylchiadau presennol

Gadawodd y Dirprwy Weinidog y cyfarfod.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

# Yr wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd swyddogion Llywodraeth Cymru yr wybodaeth ddiweddaraf am y camau a gymerir i gefnogi gofalwyr fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, gan gynnwys y canlynol:

- mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau adnoddau ychwanegol ar gyfer y sector. Hyd yn hyn darparwyd cronfa ymateb i COVID-19 ar gyfer y Trydydd Sector (£24m), cronfa caledi'r awdurdodau lleol (£30m), a chronfa ar gyfer gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion (£40m) i helpu darparwyr gofal cymdeithasol gyda'r costau ychwanegol sydd wedi codi oherwydd COVID-19
- parhau y mae'r ymrwymiad cadarn i'r cynllun cenedlaethol ar gyfer gofalwyr, er bod y cyd-destun wedi newid. Mae'r ddogfen ymgynghori wedi ei pharatoi eisoes, ond bydd angen edrych arni eto i roi sylw i'r goblygiadau sy'n deillio o'r argyfwng COVID-19
- mae swyddogion wrthi'n trafod y ddarpariaeth o PPE, ar gyfer gofalwyr nad ydynt yn derbyn tâl, gyda chydweithwyr, a byddant yn codi'r mater gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae trafodaethau tebyg yn cael eu cynnal ynglŷn â phrofion
- mae'r Dirprwy Weinidog yn bwriadu cadw at y dyddiad a bennwyd ar gyfer darparu'r wybodaeth am y datblygiadau diweddaraf yn y gwaith o weithredu argymhellion y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a Chwaraeon, o ran sut mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn effeithio ar ofalwyr
- mae swyddogion yn ystyried beth y gellid ei wneud i leddfu pryderon yn ystod y cyfnod hwn, er enghraifft drwy ddarparu canllawiau ar-lein i ofalwyr ac awdurdodau lleol
- mae cyllid wedi cael ei gadarnhau ar gyfer Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru er mwyn bwrw ymlaen â gwaith y Grŵp Ymgysylltu

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.

## Trafodaeth

Aeth yr aelodau ati i drafod yn fanylach y gwaith a wneir i gefnogi gofalwyr yn eu hardaloedd, a rhai o'r problemau sydd wedi cael eu nodi.

- mae teuluoedd yn bryderus ynglŷn â chaniatáu i eraill (er enghraifft gweithwyr gofal) ddod i mewn i'w cartrefi oherwydd y risgiau a allai ddeillio o hynny. Mae'n bosibl bod hyn yn broblem tymor byr a fydd yn lleihau wrth i'r cyfyngiadau cael eu llacio. Rydym yn cadw mewn cof nad ydym yn gweld patrwm o awdurdodau lleol yn gorfod ail-flaenoriaethu pecynnau gofal i lawer o bobl i'r fath raddau ag y gellid fod wedi disgwyl
- mae'r Comisiynydd Plant wedi datblygu man ganolog ar gyfer darparu gwybodaeth am y feirws i blant a phobl ifanc. Gofynnwyd i aelodau gysylltu os oedd ganddynt unrhyw wybodaeth i bobl ifanc y gellid ei chynnwys
- mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru, Gofalwyr Cymru, Fferylliaeth Gymunedol Cymru, a Chymdeithas Fferyllol Frenhinol Cymru yn gweithio ar ddulliau cyfathrebu ac adnoddau sy'n ymwneud â mynediad gofalwyr at feddyginiaethau, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae dull gweithredu tebyg yn yr arfaeth ar gyfer manwerthwyr
- cynhelir yr Wythnos Gofalwyr rhwng 8 - 14 Mehefin, a bydd y Partneriaid yn darparu'r digwyddiad o bell.
- cododd aelod y mater bod pecynnau taliadau uniongyrchol wedi cael eu hatal am y tro, a'r dryswch sydd wedi codi ynglŷn â'r hyn y dylid ei wneud os oes gan rywun gynorthwyydd personol, sy'n gymwys ar gyfer taliadau uniongyrchol, ond sy'n gorfod gwarchod ei hunan (er enghraifft). Cadarnhaodd swyddogion y byddai'r mater hwn yn cael sylw yn yr ymateb i lythyr Cynghrair Cynhalwyr Cymru
- Bydd *Carers UK* yn cyhoeddi ei adroddiad '*Caring behind closed doors'*. Mae'r adroddiad yn cynnwys canlyniadau arolwg cyflym o ofalwyr a gynhaliwyd i ofyn sut y maent yn ymdopi â'r argyfwng COVID-19. Ymatebodd dros 4,000 o ofalwyr, ac mae'r data wedi cael eu dadansoddi ar

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**

Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.

Gwybdaeth am **hawlfraint**.

lefel Cymru

- mae perygl y gallai gofalwyr ifanc, yn enwedig y rheini a fydd yn troi'n 18 oed yn ystod y cyfnod hwn, ddiflannu o'r golwg, gan beidio a manteisio ar opsiynau y tu hwnt i'w rôl ofalu. Beth yw'r opsiynau ar ôl troi'n 18, a sut y gallwn gyrraedd y bobl ifanc hyn? Mae'r sefyllfa bresennol yn golygu ein bod yn gorfod meddwl yn strategol yn y tymor canolig mewn perthynas â chanlyniadau na fwriedid eu cael. Gallai'r sefyllfa godi rhwystr ym mywydau'r gofalwyr ifanc hyn y tu hwnt i'w rôl ofalu.

## Camau gweithredu

Cam gweithredu 1: Aelodau i roi gwybodaeth sy'n berthnasol i ofalwyr ifanc i swyddfa'r Comisiynydd ar gyfer ei chynnwys yn y fan wybodaeth ganolog y mae'r Comisiynydd Plant yn ei darparu ar gyfer plant a phobl ifanc.

Cam gweithredu 2: Gofynnwyd i'r aelodau barhau i anfon adborth i'r tîm Pobl Hŷn a Gofalwyr o ran enghreifftiau o arferion da ac unrhyw faterion sy'n ymwneud â darparu cymorth i ofalwyr.

Cam gweithredu 3: Swyddogion i wneud ymholiadau ynghylch y sefyllfa pan fydd gofalwyr yn croesi trothwy 18 oed.

**Efallai na fydd y ddogfen hon yn hollol hygyrch.**
Drllenwch ein **datganiad hygyrchedd** i gael rhagor o wybodaeth.

**Cafodd y ddogfen hon ei lawrlwytho o LLYW.CYMRU, efallai nad dyma'r fersiwn mwyaf diweddar.**
Ewch i **https://www.llyw.cymru/cofnodion-cyfarfod-grwp-cynghorir-gweinidog-ar-gyfer-gofalwyr-23-ebrill-2020** i weld y fersiwn ddiweddaraf.
Gwybdaeth am **hawlfraint**.